OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 155 (Cy.25)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*29 Ionawr 2003*
Yn dod i rym - -	*10 Chwefror 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 32, 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 10 Chwefror 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Diwygio Rheoliadau

2. Diwygir Atodlen 3 i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001(**2**) fel a ganlyn:

(a) ychwanegir y canlynol at y tabl o Swyddogaethau nad ydynt i fod yn Unig Gyfrifoldeb Bwrdd Awdurdod:

Cynlluniau a Strategaethau	*Cyfeiriad*
Strategaeth Iechyd a Llesiant	Adran 24 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002

(b) diddymir y cofnod "Cynllun Gwasanaethau Plant" yng Ngholofn (1) a'r cyfeiriad cysylltiedig yng Ngholofn (2).

(c) diddymir y cofnod "Cynllun Gofal Cymunedol" yng Ngholofn (1) a'r cyfeiriad cysylltiedig yng Ngholofn (2).

(**1**) 2000 p.22.
(**2**) 2001 Rhif 2284 (Cy.173) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysi (Cymru) 2001 Rhif 3711 (Cy.307) a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2002 Rhif 810 (Cy.90).